Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

" Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd? " Ionawr 2009 — Rhifyn 11

Yn y Rhifyn Hwn:

• **Ymgyrch Wrth-Yfed a Gyrru Cymru-gyfan dros y Nadolig** • **Golwg Newydd i Hebryngwyr Croesfannau Ysgol** •**Bikeability** • **Gostyngiad yn Nifer y Rhai a gaiff eu Lladd oherwydd Yfed a Gyrru** • **Cynllun MyKey Cwmni Ford** • **Ymchwiliad i Ddamweiniau ar y Ffyrdd** • **Amddiffyniad yn y Cefn** • **Strapping Yarns** • **Adroddiad PACTS – Behave Yourself** •**Glasbrint ar gyfer 2010-2020** •**Textecution**

Ymgyrch Wrth-Yfed a Gyrru Cymru-gyfan dros y Nadolig

Adeg lansio ymgyrch wrth-yfed a gyrru Llywodraeth y Cynulliad a'r Heddlu yng Nghaernarfon ar gyfer y Nadolig, disgrifiodd teulu Amanda Coulton, gwraig o'r Gogledd a gafodd ei lladd gan yrrwr a oedd wedi bod yn yfed, sut y mae'r digwyddiad wedi effeithio arnynt hwy.

Ac wrth lansio'r ymgyrch flynyddol, rhoes Heddlu'r Gogledd, a oedd yn cynrychioli pedwar heddlu Cymru, rybudd clir i fodurwyr a fyddai allan dros yr ŵyl: "Fe gymerwn ni gamau pendant iawn os cewch chi'ch dal yn yfed a gyrru

Y llynedd, rhoddwyd prawf anadl i 19,554 o yrwyr ar ffyrdd Cymru yn ystod ymgyrch y Nadolig. Cafwyd bod 587 ohonynt dros y terfyn.

Dywedodd Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, wrth lansio'r ymgyrch: "Er mai lleiafrif bach anghyfrifol o fodurwyr sy'n dal i dorri rheolau yfed a gyrru, nhw sy'n cyfrif am un o bob chwe marwolaeth ar y ffyrdd yn y wlad hon. Dwi'n gofyn iddyn nhw ystyried yr effaith ddychrynllyd y gallai eu hymddygiad ei chael ar ddioddefwyr diniwed, a pheidio â bod mor gwbl ddifeddwl.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weinidog hefyd bedwar enillydd rhanbarthol cystadleuaeth amlgyfrwng Wrth-Yfed a Gyrru Diogelwch Ffyrdd Cymru, lle gwahoddwyd pobl ifanc i gyflwyno neges wrth-yfed a gyrru mewn cyfrwng o'u dewis. Cewch weld yr enillwyr yma.

Golwg Newydd i Hebryngwyr Croesfannau Ysgol yn Sir Gaerfyrddin

Mae hi'n awr yn dipyn haws gweld Hebryngwyr Croesfan Ysgol ledled Sir Gaerfyrddin. Bydd y lliwiau coch a melyn llachar yn sicrhau bod pawb ond y gyrwyr mwyaf coch yn eu gweld.

Mae gwisg newydd yr Hebryngwyr Croesfannau Ysgol yn rhan o ymgyrch fawr gan Gyngor y Sir i gadw plant yn ddiogel y tu allan i glwydi ysgolion. O ddiwedd y mis ymlaen, bydd yr Hebryngwyr yn gwisgo cotiau coch a melyn yn Patrols hytrach na'r hen rai sy'n felyn i gyd.

Ar got y wisg newydd bydd llinellau adlewyrchol pwrpasol. Meddai Rheolwr Diogelwch Ffyrdd y Sir, Keith Griffiths, "Bydd Hebryngwyr Croesfannau Ysgol yn chwarae rôl bwysig ac allweddol wrth sicrhau bod y plant yn croesi'r ffyrdd yn ddiogel wrth fynd yn ôl ac ymlaen i'r ysgol." Meddai, "Bydd y gwisgoedd newydd yn ei gwneud hi'n haws i fodurwyr eu gweld. Bydd y lliw coch sydd wedi'i gynnwys yng nghynllun y dillad yn helpu gyrwyr i weld yr hebryngwyr pan fydd y golau'n isel neu'n llachar iawn, ac yn help iddyn nhw wahaniaethu rhwng hebryngwyr a phobl eraill sy'n gwisgo siacedi fflwrolau."

Mae Bikeability'n dod i Gymru

working for cycling

sports council wales
cyngor chwaraeon cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mae CTC, Mudiad Cenedlaethol Beicwyr y DU, wedi penodi Gwenda Owen yn Swyddog Datblygu Hyfforddiant Beicio i hwyluso cyflwyno Safonau Cenedlaethol Hyfforddiant Beicio yng Nghymru. Ariannir ei swydd gan Lywodraeth y Cynulliad gyda chymorth Cyngor Chwaraeon Cymru. Bydd Gwenda'n gweithio gydag Awdurdodau Lleol a hyfforddwyr beicio eraill i gynyddu llawer iawn iawn ar yr hyfforddiant a roir ledled Cymru.

'Ers i mi gychwyn ym mis Hydref, mae'r brwdfrydedd ynghylch cyflwyno a datblygu'r ffordd newydd hon o ddysgu beicio wedi bod yn galondid mawr. Rwyf wedi teithio o amgylch Cymru ar feic a thrên i siarad â'r rhai sydd wrthi'n hyfforddi beicio, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda thimau diogelwch y ffyrdd, swyddogion beicio a hyfforddwyr annibynnol. Mae'r cyllid yn fodd i gynnig bwrsariaethau i helpu i hyfforddi 110 o hyfforddwyr newydd ac i ddatblygu'r ddarpariaeth i hyfforddi hyfforddwyr ledled Cymru. Bydda i'n cyhoeddi manylion y broses ymgeisio am fwrsariaeth a manylion datblygu'r darparwyr hyfforddiant cyn hir. Os hoffech chi gysylltu â mi yn y cyfamser, defnyddiwch un o'r dulliau isod'

Llinell uniongyrchol: 029 20750301
Symudol: 07825081097 E-bost gwenda.owen@ctc.org.uk www.ctc.org.uk/

Gostyngiad yn Nifer y Rhai a gaiff eu Lladd oherwydd Yfed a Gyrru

Yn ôl ystadegau'r llywodraeth, mae nifer y bobl sydd wedi'u lladd oherwydd yfed a gyrru wedi gostwng bron un rhan o bump.



Yn ôl ffigurau diweddaraf yr Adran Drafnidiaeth, gostwng 18%, sef o 560 yn 2006 i 460 yn 2007, wnaeth nifer y marwolaethau.
Gostwng hefyd wnaeth nifer yr anafiadau difrifol – o 1,970 yn 2006 i 1,760 yn 2007, gostyngiad o 11%.
Ond codi wnaeth nifer y digwyddiadau llai difrifol gan i gyfanswm y marwolaethau a'r anafiadau a achoswyd gan yfed a gyrru godi 220 o achosion y flwyddyn i 9,620 – cynnydd o 2%. Bellach, mae nifer y marwolaethau'n is nag ers 1999.
Meddai'r Gweinidog Trafnidiaeth, Rosie Winterton: "Bydd yfed a gyrru'n difetha bywydau. Dyna pam y mae hi mor braf gwybod bod nifer y bobl a gafodd eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol fel hyn wedi gostwng.
"Ond mae unrhyw farwolaeth neu anaf a achosir gan rywun sy'n gyrru ar ôl yfed yn un yn ormod, a byddwn ni'n dal i daclo'r broblem ddifrifol hon issue."
Meddai ymhellach: "Er bod deg mlynedd ar hugain o ymgyrchoedd y llywodraeth a gwaith gorfodi gan y llysoedd a'r heddlu wedi bod yn llesol, gallwn ni bob amser wneud rhagor."

Cynllun MyKey Cwmni Ford

Cyn hir, gallai ceir gynnwys offer rheoli sy'n fodd i rieni gyfyngu ar yr hyn y gall gyrwyr ifanc ei wneud â cherbyd. Mae system MyKey, a ddatblygwyd gan Ford, yn cyfyngu ar gyflymder uchaf car ac ar ba mor uchel y gall sŵn ei stereo fod, ac yn seinio rhybudd os na chaiff y gwregysau diogelwch mo'u gwisgo. Bydd Ford yn cyflwyno'r offer rheoli hyn ar rai mathau o geir sydd i'w cyflwyno yn yr Unol Daleithiau yn 2009/2010.

Seiniau rhybuddio

Prif elfen system MyKey yw cyfyngu cyflymdra uchaf car i 80 milltir yr awr.

Dywed Ford fod dewisiadau eraill yn fodd i rieni gyfyngu ar lefel sain stereo'r car a gwneud i'r car seinio rhybudd parhaus os nad yw'r gyrrwr a'r teithwyr yn gwisgo gwregys diogelwch. Bydd dewisiadau eraill yn fodd i rieni benderfynu a ddylai seiniau rhybuddio ganu os aiff y car yn gynt na 45, 55 neu 65 milltir yr awr. Dywed y cwmni ceir i'r system adeiladu ar y sglodion ID sydd eisoes yn cael eu defnyddio yn allweddi ceir i rwystro'u dwyn.

"Mae'n defnyddio technoleg sy'n bod yn barod, a thrwy ddatblygu'r feddalwedd rydym wedi llwyddo i ychwanegu nodweddion at y rhai sydd gennym yn barod," meddai Jim Buczkowski, cyfarwyddwr peirianneg systemau electronig a thrydanol Ford. www.ford.com

Ymchwiliad i Ddamweiniau ar y Ffyrdd

Mae trefn a phatrwm ymchwilio i ddamweiniau ar y ffyrdd yn amrywio'n fawr ar draws Ewrop. Ond wrth i wledydd geisio cyrraedd eu targedau eu hunain, a rhai'r Comisiwn Ewropeaidd, ynghylch diogelwch ar y ffyrdd, fe all nad yw'r ymchwiliadau hynny'n gwbl addas, bellach, wrth hwyluso prosesau penderfynu'r rhai sy'n llunio polisïau ar ddiogelwch ar y ffyrdd neu'r rhai sy'n eu rhoi ar waith.

Mae'r arferion presennol o ran ymdrin â damweiniau ar y ffyrdd yn gwbl wahanol i'r rhai ar gyfer damweiniau yn yr awyr, ar y rheilffyrdd ac ar y môr, ac felly hefyd y fframwaith deddfwriaethol ynghylch ymchwiliadau o'r fath. Ond nid oes unrhyw ofynion tebyg nac amcanion clir ar hyn o bryd ar gyfer trefnu ymchwiliad tryloyw ac annibynnol i ddamweiniau ar y ffyrdd.

Nod yr adroddiad 'Recommendations for Transparent and Independent Road Accident Investigation' yw rhoi sylw i'r mater hwn.

Amddiffyniad yn y Cefn

Mae Toyota wedi datblygu bag aer yn y cefn i amddiffyn pennau'r rhai sy'n teithio yn y cefn os bydd gwrthdrawiad o'r tu ôl.

Daw'r bag aer i lawr fel llen o leinin y to uwchben y ffenestr gefn. Bydd y bag aer, ynghyd â'r ffrâm sy'n dal y pen, yn lleddfu effaith taro'r pen yn erbyn cerbyd neu rannau o'r cerbyd sydd wedi'i daro, ac felly'n helpu i leihau difrifoldeb yr anafiadau.

Y disgwyl yw i gyflwyno'r bag aer yn y cerbyd pedair-sedd bach iawn, yr "iQ", ryw ddyblu'r amddiffyniad sydd i bennau teithwyr yng nghefn y car.

www.toyota.com

Strapping Yarns

Adroddiad i ymchwil ar ddiogelwch y ffyrdd yw Strapping Yarns: Why People Do and Do Not Wear Seatbelts ac ynddo ceir gwell dealltwriaeth o ddefnydd pobl o wregysau diogelwch, a'u hagweddau atynt.

Ymchwiliodd cam cyntaf y rhaglen i weld pwy sydd a phwy sy'n peidio gwisgo gwregys diogelwch a phryd y bydd hynny'n digwydd, ac yna dechreuodd esbonio pam y gwnânt hynny. Ail gam y rhaglen oedd cynnal cyfres o weithdai ansoddol i'r cyhoedd. Trydydd cam y prosiect oedd canfod ffrwyth allweddol camau 1 a 2 a gofyn i 2,000 o bobl lenwi holiadur.

Cewch weld yr adroddiad llawn yma

Adroddiad PACTS– Behave Yourself

Erbyn hyn, mae'r adroddiad diweddaraf ar ymchwil PACTS, 'Behave Yourself - Road Safety Policy in the 21st Century' ar gael i'w lwytho i lawr.

Mae'r adroddiad yn asesu pa mor effeithiol yr ydym wedi bod wrth gwtogi ar nifer yr anafiadau ar y ffyrdd drwy newid ymddygiad, ac a oes modd dysgu gwersi o feysydd polisi eraill fel smygu mewn mannau cyhoeddus, ailgylchu a theithio'n gynaladwy.

Dyma rai o argymhellion allweddol yr adroddiad:

• Mae angen creu cronfa ddata o'r holl ymgyrchoedd hysbysebu ac addysgu ac ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ar y lefelau cenedlaethol a lleol
• Mae angen cynnwys derbynwyr y polisi yn y broses o greu'r polisi
• Mae angen adolygu pa mor effeithiol yw hysbysebu ynghylch diogelwch ar y ffyrdd, yn enwedig o ran defnyddio ymgyrchoedd sy'n chwarae llawer iawn ar ofnau pobl
• Mae eisiau gwneud adolygiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth ynghylch cyflymdra, anafiadau a chwtogi ar ddamweiniau
• Mae angen bod â dadleuwyr dylanwadol o blaid diogelwch ar y ffyrdd ym myd gwleidyddiaeth a byd busnes.

Wrth sôn am yr adroddiad, dywedodd Robert Gifford, y Cyfarwyddwr Gweithredol, "Bydd gwleidyddion yn galw'n gyson, ac yn gwbl gywir, am newid ymddygiad ym maes diogelwch ar y ffyrdd. Ond yn rhy aml o lawer fyddwn ni ddim yn gwybod p'un yw'r ffordd orau o wneud hynny.

"Mae ymddygiad ar ein ffyrdd wedi newid. Oddi ar 1979, mae cyfraddau gwisgo gwregysau diogelwch wedi codi oherwydd cymysgedd o hysbysebion, cynllun cerbydau a gorfodaeth. Dros y degawd diwethaf, mae'r ganran o yrwyr sydd heb fod yn cydymffurfio â'r terfyn cyflymdra o 30 mya mewn traffig sy'n llifo'n rhydd wedi gostwng o 70% i 49%. Gan fod modd i ymddygiad newid, mae modd gostwng nifer y rhai sy'n cael eu lladd neu eu hanafu.

"Ond wyddom ni ddim digon am rai meysydd. Dyw hi ddim yn glir pa mor effeithiol yw hysbysebu, yn enwedig pan fydd yn canolbwyntio ar gyffroi ofn neu emosiwn. I ostwng rhagor, y tu hwnt i 2010, ar nifer y rhai sy'n cael eu hanafu neu eu lladd, bydd angen i ni fod yn fwy craff. I gael y maen hwn i'r wal, bydd hi'n hollbwysig sicrhau dealltwriaeth well o ymddygiad pobl ac o ffyrdd posibl o'u helpu i ymddwyn yn wahanol."

Dogfen: Behave Yourself Final.pdf

Glasbrint ar gyfer 2010-2020

Mae Cyngor Diogelwch Cludiant Ewrop (yr ETSC) wedi cyhoeddi glasbrint ar gyfer pedwaredd raglen yr UE o Weithredu ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd, 2010-2020.

Gan fod y 3ydd Raglen yn dod i ben yn 2010, awgrym yr ETSC yw y dylai'r UE anelu at ostwng 40% ar nifer y marwolaethau ledled yr UE dros y degawd nesaf, a gostwng 20% ar yr anafiadau difrifol ym mhob aelod-wladwriaeth. Mae'r ETSC hefyd wedi llunio gweledigaeth bosibl ar gyfer y bedwaredd Raglen, sef "Diogelwch ar y Ffyrdd fel hawl a chyfrifoldeb"

Cewch weld y glasbrint yma

Textecution

Cyn hir, gallai pobl ifanc ddi-hid sy'n defnyddio'u ffôn symudol i anfon tecst wrth yrru ddarganfod bod y Brawd Mawr, neu'n hytrach y Rhiant Mawr, yn cadw llygad barcud arnynt.

Mae gwasanaeth newydd o'r enw Textecution yn defnyddio system GPS ffôn symudol i fesur pa mor gyflym y mae'r ffôn hwnnw'n symud. Os yw'n symud yn gynt na 10mya, bydd yn colli ei allu i anfon negeseuon. Pan ddaw'r ffôn i stop, wrth oleuadau traffig, er enghraifft, neu pan fydd y cerbyd wedi parcio, caiff y gyrwyr anfon negeseuon unwaith eto.

Mae Textecution yn un o sawl datblygiad arloesol sy'n deillio o'r pryderon cynyddol ynghylch gyrwyr sy'n hoelio'u sylw ar eu ffôn yn hytrach nag ar y ffordd.

Daeth adroddiad gan Sefydliad yr RAC y llynedd i'r casgliad bod tecstio y tu ôl i'r olwyn yn amharu mwy ar sgiliau gyrwyr na bod yn feddw neu dan ddylanwad cyffuriau. Er gwaetha'r perygl, cyfaddefodd 48% o yrwyr 18-24 oed iddynt dorri'r gyfraith drwy decstio wrth yrru.

Cost Textecution yw $10. Ym Mhrydain neu America gellir ei lwytho i lawr i lwyfan ffonau symudol Google, sef Android. Bydd rhiant yn cofrestru ei fanylion/ei manylion gyda'r gwasanaeth ac yn ei osod ar ffôn y plentyn fel bod modd i loeren ddilyn ei symudiadau. Os bydd y plentyn yn ceisio tecstio wrth deithio'n gynt na 10mya, bydd neges ar sgrin y ffôn yn dweud ei fod yn symud yn rhy gyflym i ddefnyddio'r cymhwysiad hwnnw."

Mae ateb arall, Key2SafeDriving, yn defnyddio ffob allwedd, ac yn fwy cyfyngus eto. Fe'i cynlluniwyd gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Utah, ac mae'n defnyddio dyfais sy'n amgáu allwedd car. Pan fydd ffôn yn y "modd gyrru", does dim modd defnyddio'r ffôn i wneud galwadau nac anfon negeseuon tecst, ac eithrio i ffonio rhifau argyfwng neu rifau y mae'r rhieni wedi'u cymeradwyo. Yr ateb awtomatig i alwadau a thecstiau sy'n dod i mewn fydd neges sy'n dweud "Rwy'n gyrru. Cewch ateb ar ôl i mi gyrraedd pen fy nhaith yn ddiogel."

Pan gaiff yr injan ei diffodd, bydd y gyrrwr yn llithro'r allwedd yn ôl i mewn i'r ddyfais. Bydd honno'n anfon neges at y ffôn i ddweud bod y car wedi stopio a bod modd defnyddio'r ffôn unwaith eto.
www.textecution.com

Cysylltwch â'r Golygydd

Hawlfraint © 2009 gan RoSPA Cymru – Cedwir Pob Hawl.

Golygydd: Steve Baker, RoSPA
sbaker@rospa.com

02920 250 600